# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr K. Evans, Raymond Jones, R. Dylan Jones, G. O. Parry MBE, J. Penri Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid;<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden;<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi);<br>Rheolydd Sgriwtini;<br>Swyddog Sgriwtini (GWR);<br>Ymgynghorydd Rheoli Rhaglen (AE);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr R. Hughes, R. Lloyd Hughes, Eirc Jones, Eric Roberts, Keith Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. H. Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |

1

2 Cyn cychwyn ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod, estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Rheolydd Sgriwtini a oedd newydd gael ei phenodi, sef Ms Beverly Symonds, i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

3

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod na Swyddog.

### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2010 fel rhai cywir gyda'r newid bod Penderfyniad (ii) yn darllen: *bod yr Aelod Portffolio yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gweithredu proses i ddatrys unrhyw wahaniaeth barn rhwng Adrannau".*

**Yn codi o'r Cofnodion**

**Adolygiad Adnoddau Dynol**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Rheolydd Gwasanaethu Adnoddau Dynol wrth law yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr Adolygiad.

### 3 ASESIAD CORFFORAETHOL RHAGARWEINIOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau ar y casgliadau a nodwyd yn yr asesiad mewn perthynas â threfniadau corfforaethol y Cyngor i gefnogi gwelliant. Cyflwynwyd copi o'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol dyddiedig Medi 2010 fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod. Ychwanegodd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn addawol ac atgoffodd yr aelodau fod y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi amlinellu cynnydd yn erbyn yr adferiad pan gyflwynwyd yr asesiad i'r Cyngor ar 28 Hydref 2010.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai hwn yw'r adroddiad cyntaf y mae'r Cyngor wedi ei dderbyn a'i fod yn ddangosydd pwysig o ran y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cyngor. Roedd yr asesiad yn seiliedig i raddau helaeth ar adroddiadau gwaith i'r Bwrdd Adfer. Ceir diweddariad ychwanegol fel rhan o'r adroddiad gwella blynyddol a gyflwynir i'r Cyngor Sir fis nesaf a bydd yn rhoi Asesiad Corfforaethol ac Asesiad Perfformiad. Bydd yr adroddiad yn disodli'r llythyr archwilio

blynyddol.  Ychwanegodd y Swyddog bod yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol hwn yn amlinellu asesiad yr archwilwyr o'r trefniadau corfforaethol i gefnogi gwelliant.  Cyfeiriodd at y ffaith hefyd bod y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi pwysleisio yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir y bydd y Rheoleiddwyr yn parhau i ddangos diddordeb mewn cynnal yr Adferiad. Dygwyd sylw at feysydd ar gyfer eu gwella a nodwyd yn yr adroddiad.

Dygodd y Cynghorydd Keith Evans sylw at y Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w gynorthwyo i wella a chwestiynodd a oedd gan y Cyngor faniffesto clir.  Cyfeiriodd y Cadeirydd at Gynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor a chydnabu bod angen i'r cynllun fod yn fanylach ac yn fwy caboledig yn y dyfodol.  Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yr aelodau mai hwn yw'r cynllun cyntaf yn y fformat cyfredol a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddid yn adeiladu arno.  Ychwanegodd y bydd asesiad perfformiad yn cael ei gyflwyno fis nesaf fel rhan o'r adroddiad gwella blynyddol.

Dywedodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE bod dogfen debyg wedi ei chyhoeddi dros y blynyddoedd.  Roedd yn credu mai'r Cyngor hwn oedd yr awdurdod mwyaf gor-reoleiddiedig yn y Deyrnas Gyfunol.  Cyfeiriodd at fewnbwn y Swyddfa Archwilio a'r anawsterau yr oedd y swyddfa honno wedi eu cael.  Cyfeiriodd at nifer o faterion yr oedd yn credu bod angen eu datrys gan gynnwys:

- y traffig un rhes ar y brif ffordd i Langefni (dan Bont yr Orsaf) a oedd, yn ei farn ef, yn gwbl amhriodol;
- Datblygu swyddogion;
- System Werthuso - dylid cael atborth ar y system 360 gradd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fod system werthuso newydd a chynhwysfawr yn cael ei llunio. Bydd yn rhan o'r Rhaglen Waith ar gyfer Adnoddau Dynol a bydd yn berthnasol i'r holl adrannau ledled y Cyngor.  Ychwanegodd bod ymrwymiad clir a chadarn i sefydlu proses werthuso unffurf yn y dyfodol.  Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y Cynghorydd J. Penri Williams, cadarnhaodd y Swyddog bod cynnydd yn cael ei wneud o ran sicrhau bod rhaglenni a chofnodion y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a bod yr Adain Technoleg Gwybodaeth yn cydweithredu gyda Swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr yn hyn o beth.
**GWEITHREDU:  Bydd adroddiad ar y Strategaeth TG yn cael ei gynnwys fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**

Atgoffwyd yr aelodau gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod capasiti corfforaethol wedi'i gryfhau yn arbennig mewn perthynas â'r Swyddogaeth Sgriwtini a siaradodd am y cyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi dod yn rhan o'r broses ymgysylltu gyda'r cyhoedd lle gofynnwyd am eu barn ynghylch blaenoriaethau cyllidebol y Cyngor.  Mae cyfrifoldeb ar aelodau hefyd i gyflwyno barn y cyhoedd mewn cyfarfodydd.  Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai atborth o'r Bwrdd Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor hwn.  Roedd yn cytuno gyda'r aelodau y dylai gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor.  Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at baragraff 60 yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol a oedd yn dweud yn glir fod perfformiad a rheoli risg yn parhau i fod yn feysydd allweddol ar gyfer eu gwella ac nad oes cofrestr risg gorfforaethol ac nad yw egwyddorion rheoli risg wedi eu sefydlu'n gadarn hyd yma.  Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio (Cyllid) at rôl yr Ymgynghorydd Rheoli Perfformiad yn y broses hon a oedd yn cynnwys llunio cynlluniau busnes a sicrhau gwerth am arian.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE at y costau mewn perthynas ag Adain Gyfreithiol y Cyngor yn yr ystyr bod 8 o Gyfreithwyr amser llawn yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Roedd yn holi a fyddai'n fwy economaidd allanoli'r gwasanaeth.  Cyfeiriodd at fater yn ei ward ei hun a oedd yn cynnwys plot o dir a oedd yn werth £400.  Roedd cyngor cyfreithiol y gofynnwyd amdano mewn perthynas â'r tir hwnnw wedi costio oddeutu £10,000 i'r Cyngor hyd yma.
**GWEITHREDU: Byddai'r Adain Cyfreithiol yn rhoi ateb ysgrifenedig i'r aelod ynghylch ei bryderon.**

Cododd y Cynghorydd R. Dylan Jones gwestiwn ynghylch y Cynllun Rheoli Asedau.  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fod Panelau Tasg a Gorffen wedi eu sefydlu i ystyried materion eiddo a mân-ddaliadau.  Bydd adroddiad ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gyda hyn.  Holodd y Cadeirydd pam oedd y Cynllun Rheoli Asedau yn cael ei sgriwtineiddio

gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd/Twristiaeth/Eiddo oherwydd ei fod yn credu bod hwn yn fater corfforaethol y dylid ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.
**GWEITHREDU: Bydd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn cael trafodaeth gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ynghylch priodoldeb y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cymryd perchenogaeth o'r Cynllun Rheoli Asedau i bwrpas sgriwtini.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r ddogfen ac y byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno ac roedd y Cadeirydd yn gobeithio y byddai'r rheini yn dangos cynnydd o ran sicrhau gwelliant ac adferiad y Cyngor.**

## 4 BWRDD RHEOLI PERFFORMIAD A RHAGLEN

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Ms Ann Edwards, Ymgynghorydd Rheoli Rhaglen, annerch y cyfarfod mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gyda sefydlu gwaith y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn y Cyngor.

Amlinellodd Ms Edwards y cysyniad Cynllunio Busnes a rhoddodd grynodeb byr o beth yw prosiect h.y.:-

- cyfres o weithgareddau cysylltiedig gyda chyfyngiad amser ar gyfer cyflawni canlyniadau ac allbynnau a ddeisyfir;
- cyflawni allbynnau trwy gyfrwng tîm;
- wedi ei arwain gan Reolydd Prosiect;
- wedi ei yrru gan gynllun gyda rhestr o ddyddiadau cyflawni;
- costio adnoddau o'r cychwyn i'r diwedd;
- sicrhau bod y gost yn llai na'r cyflawniad;
- archwilio achos busnes ar gyfer pob prosiect.

Ychwanegodd bod Rheolaeth Prosiect Allweddol Ynys Môn yn seiliedig ar PRINCE2 sy'n ddull Rheoli Perfformiad safonol gan y Llywodraeth. Bydd y Swyddog Rheoli Perfformiad yn monitro'r prif brosiectau tra bydd y prosiectau llai yn cael eu monitro gan Ffynnon.

Siaradodd Ms Edwards am y materion isod mewn perthynas â'r broses:-

- Llywodraethu Prosiectau (3 rhan / 4 giât)
- Y Broses Rheoli Prosiectau
- Anghenion Hyfforddi a Chynnydd hyd yma
- Staffio'r Swyddfa Rheoli Rhaglen a'r Swyddfa Perfformiad
- Materion sydd angen sylw i'r dyfodol.

Roedd y Cynghorydd J. Penri Williams yn croesawu'r broses a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd yn credu y byddai'r broses o fudd mawr iawn i'r Cyngor a mynegodd ddymuniad cryf bod y rheini sy'n gyfrifol yn sicrhau adnoddau digonol fel bod modd parhau gyda'r broses. Mynegodd y Cynghorydd G. O. Parry ei bryderon ynghylch adrannau yn mabwysiadu meddalwedd TG nad yw'n gydnaws â systemau ym mhob un o adrannau'r Cyngor a'r ffaith bod hynny'n arwain at gostau ychwanegol. Rhoddodd Ms Edwards sicrwydd i'r aelod fod y feddalwedd Ffynnon yn cael ei chyflenwi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r holl Gynghorau trwy Gymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Edwards am ei chyflwyniad. Mynegodd ei bryderon na fyddai'r buddsoddiad yn y broses yn gynaliadwy pan fydd Ms Edwards yn gadael cyflogaeth y Cyngor ar ddiwedd mis Tachwedd. Fodd bynnag, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) sicrwydd ynghylch materion recriwtio a throsglwyddo.

## 5 RHAGOLYGON Y GYLLIDEB

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) adroddiad ar y rhagolygon ariannol diweddaraf a'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Cadarnhaodd bod pethau'n ddifrifol iawn o safbwynt y sefyllfa ariannol ar hyn o bryd a'r rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd y cafwyd trafodaethau eisoes ac y bydd canlyniadau'r penderfyniadau hynny yn amlygu eu hunain yn y dyfodol agos.

Cadarnhaodd er bod rhai agweddau yn well nag yr ofnwyd, mae eraill yn waeth. Ni chafwyd manylion pendant hyd yma ynghylch Adolygiad Gwario Cynhwysfawr 2010 ond disgwylir y bydd y toriad refeniw i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 1.3% yn 2011-12 ac wedyn yn +0.8%, +1.1% a +0.3%. Bydd cyllid cyfalaf LlCC yn cyfateb i -24%, -6%, -10%, +3% gyda rhai gwasanaethau yn cael eu gwarchod h.y. iechyd ac addysg. Mae dadansoddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dangos bod y sefyllfa'n waeth nag ar unrhyw adeg yn y gorffennol. Cyhoeddir cyllideb drafft LlCC ar 17 Tachwedd a cheir gwybod am y setliadau amodol i Lywodraeth Leol ar 23 Tachwedd. Gwneir penderfyniadau ynghylch y gyllideb derfynol a'r setliad yn Chwefror 2011. Y toriadau refeniw mwyaf tebygol fydd -2.7%, -1%, -0.7% ond gyda rhai amodau. Mae rhagdybiaethau cynllunio cyllidebol wedi eu cytuno gan y Pwyllgor Gwaith ynghyd ag anghenion ar gyfer toriadau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) y gallai'r senario waethaf fod yn doriad o £9m yn erbyn cyllidebau sydd ddim yn gyllidebau ysgol. Cyfeiriodd at Ddiswyddo Staff, y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a'r penawdau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith. Cadarnhaodd mai'r goblygiadau hyd yma yw y bydd prosiectau sydd eisoes yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd, gan gynnwys cau cyfleusterau a enwyd yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau gofal dydd, toiledau, atyniadau treftadaeth, swyddfeydd derbyn arian, mwy o ysgolion a chanolfannau hamdden. Rhoddwyd rhagor o sylw i gludiant ysgol, gostwng bron y cyfan o'r gwasanaethau, diswyddo staff, codi ffioedd a chodi'r Dreth Gyngor. Ar ôl gwneud y toriadau hyn i gyd, ni fydd yr arbedion yn ddigonol. Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol â'i gyflwyniad i ben trwy gyfeirio at arbedion eraill (h.y. staffio, pecyn arfarnu swyddi, toriadau uniongyrchol mewn gwasanaethau) ac amlinellodd ganlyniadau peidio â chymryd unrhyw gamau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) am ei gyflwyniad a chydnabu bod y sefyllfa yn llwm iawn. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydweithredu i sicrhau canlyniad effeithiol ac effeithlon i'r sefyllfa. Roedd yn credu ei fod yn bwysig ryddhau ffigyrau manwl gywir yn seiliedig ar gostau gwasanaethau, prosiectau ac ati. Roedd yn credu y dylid ffurfio Panel yn ddi-oed i greu capasiti i drawsnewid y sefyllfa gyfredol. Rhoddodd enghreifftiau o arbedion ar faterion fel pwrcasu, arbed ynni a hysbysebu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Penri Williams at Kaizen sef system o welliant parhaus ar bob lefel. Pwysleisiodd bod angen capasiti i edrych ar bob un gwasanaeth, dim i dorri'r gwasanaeth, ond i dorri costau darparu'r gwasanaeth. Roedd yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal gwasanaethau ar gost sy'n sylweddol is ac mai torri'r gwasanaethau ddylai fod yr ail opsiwn. Cyfeiriodd at Gyngor Sir Suffolk a oedd wedi allanoli'r holl wasanaethau a oedd ganddo gan arbed 30% yn ei gostau.

Roedd y Cynghorydd G. O. Parry MBE yn teimlo'n gryf fod busnesau lleol bychan dan anfantais fawr oherwydd y ffioedd parcio a godir yng nghanol trefi yn hytrach na pharcio am ddim sydd ar gael mewn archfarchnadoedd mawr a chanolfannau tu allan i drefi. Roedd y cynnig i gynnwys 8 o safleoedd ychwanegol lle byddai'n rhaid talu am barcio yn ei frawychu ac anogodd y Pwyllgor Gwaith i ailystyried y penderfyniad hwn. Dywedodd yr Aelod Portffolio (Cyllid) bod y penderfyniad wedi ei wneud er mwyn sicrhau cysondeb ledled yr Ynys ac, er y disgwylir cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, byddai'r ffigwr hwn yn gynnydd priodol yn y ffioedd ar gyfer parcio. Dywedodd nad oedd tynnu'r peiriannau o holl feysydd parcio'r Ynys yn opsiwn oherwydd ei fod yn ffordd o greu incwm i'r Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Parry y byddai ganddo ddiddordeb mewn gweld y ffigyrau mewn perthynas â'r incwm a godir gan y meysydd parcio a'r costau cysylltiedig.

Soniodd y Cynghorydd Keith Evans am y Chwyddiant Tâl/Rhewi Cyflogau, Ymddeoliad Cynnar, Rhagdybiaeth yn erbyn llenwi swyddi gweigion, Swyddi Newydd, costau Hysbysebu. Roedd yn credu y dylai'r Pwyllgor Gwaith ffurfio Panel ar y meysydd hyn ac ymchwilio i'r sgôp ar gyfer gwneud arbedion. Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Gwaith wedi ffurfio Bwrdd Blaenoriaethau Fforddiadwy i edrych ar holl agweddau arbedion ac y byddai cyfarfod cyntaf y Panel ar 8 Tachwedd.

Roedd yr aelodau yn credu y dylid rhoi sylw difrifol i'r isod:-

- Trosglwyddo toiledau cyhoeddus i berchenogaeth breifat h.y. gwahodd elusennau i'w rhedeg (fel sy'n digwydd yn Llangollen) neu wahodd tafarndai/siopau i ganiatáu i bobl defnyddio eu cyfleusterau toiled.
- Stoc mân-ddaliadau'r Cyngor a chyflwyno tenantiaethau busnes;
- Cyflwyno ffigyrau manwl gywir i'r Grwp Tasg a Gorffen mewn perthynas â Chanolfannau Treftadaeth - mae'r grwp wedi cyfarfod tair gwaith ond nid yw wedi cael ffigyrau/costau.

- Costau ailgylchu.
- Canolfannau Hamdden - costau nofio am ddim.
- Ffioedd parcio - ydynt yn gost effeithiol?
- Prosiect Tair Tref Ynys Môn - gwariwyd £70,000 ar faes parcio yn Amlwch - ydi hynny'n rhesymol yn yr hinsawdd ariannol gyfredol - bydd yr Is-Gadeirydd yn ymateb yn ysgrifenedig.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ac addysgiadol, penderfynodd y Pwyllgor:-

**PENDERFYNWYD:-**

**(i) nodi argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**
**(ii) symud i ymchwilio i ddadansoddiad cost/manteision.**
**(iii) cyfeirio, yn benodol, y materion isod i'w hystyried gan y Bwrdd Blaenoriaethau Fforddiadwy:-**

***ystyried y system Kaizen;***
***yr angen i gael tystiolaeth gadarn o arbedion;***
***materion staffio a godwyd gan y Cynghorydd Keith Evans.***

***Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS***
***CADEIRYDD***